Cyhoeddi papurau cyfarfod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer mis Medi 2021

Bydd cadeirydd newydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yr Athro Susan Jebb, yn cadeirio'r cyfarfod am y tro cyntaf. Bydd yn dechrau am 9.00am ddydd Mercher 15 Medi 2021, ac mae'n ddigwyddiad ar-lein oherwydd pandemig COVID 19. Gallwch chi gofrestru i wylio ar-lein.

Mae'r agenda'n cynnwys:

- Adroddiad Blynyddol ar Safonau Bwyd yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban
- Addasu Genomau
- Diweddariad ar Les Anifeiliaid
- Y Rhaglen Trawsnewid Gweithredol – Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Fodel Cyflenwi yn y Dyfodol
- Adroddiad Blynyddol ar Ddigwyddiadau a Gwytnwch

Mae'r agenda lawn a'r papurau sydd wedi'u cyhoeddi ar gael ar dudalennau'r Bwrdd ar ein gwefan (Saesneg yn unig).

Sut i gofrestru ar gyfer cyfarfod agored y Bwrdd

Bydd cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2021 yn cael ei gynnal ar-lein, gyda dim ond aelodau'r bwrdd yn y cyfarfod ei hun, ond gobeithiwn y gallwn groesawu cynulleidfaoedd unwaith eto yn y dyfodol agos. Gallwch chi gofrestru i wylio'r cyfarfod yn fyw ar-lein.

Os oes angen help arnoch i gofrestru, neu os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni:

- Ffôn: 01772 767731
- E-bost: fsaboardmeetings@glasgows.co.uk

Cyflwyno cwestiwn

Gallwch chi gyflwyno cwestiynau i'r Bwrdd o 13 Medi i ganol dydd 14 Medi, trwy anfon e-bost at board.sec@food.gov.uk.

Bydd unrhyw gwestiynau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau, gan gynnwys ar 15 Medi, yn cael eu hateb trwy ohebiaeth yn unig.

Mae rhagor o wybodaeth am gyflwyno cwestiynau ar gael ar dudalen we ein Bwrdd.

COVID-19 a newidiadau i Gyfarfodydd Bwrdd yr ASB 2021

Oherwydd y pandemig COVID-19, rydym ni'n parhau i ffrydio'r cyfarfod ar-lein, gyda dim ond aelodau'r pwyllgor yn cael eu gwahodd i fod yno'n bersonol ar hyn o bryd, ond gobeithiwn groesawu cynulleidfaoedd yn ôl i'n cyfarfodydd bwrdd yn y dyfodol.

Mae manylion amserlen newydd y cyfarfodydd ar gael ar dudalen we ein Bwrdd.